



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 Rhif 974 (Cy. 44)

2000 No. 974 (W. 44)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Gorchymyn Coleg Pencoed
(Diddymu) 2000**

**The Pencoed College (Dissolution)
Order 2000**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note does not form part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r gorfforaeth addysg bellach a sefydlwyd i redeg Coleg Pencoed. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo ei heiddo, ei hawliau a'i rhwymedigaethau i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Technoleg Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae'n sicrhau hawliau ei gweithwyr trwy gymhwyso adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

This Order dissolves the further education corporation established to conduct Pencoed College. It provides for its property, rights and liabilities to transfer to Bridgend College of Technology Further Education Corporation and secures the rights of its employees by applying section 26(2) to (4) of the Further and Higher Education Act 1992.

2000 Rhif 974 (Cy. 44)

2000 No. 974 (W. 44)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Gorchymyn Coleg Pencoed
(Diddymu) 2000The Pencoed College (Dissolution)
Order 2000*Wedi'i wneud* 27 Mawrth 2000*Made* 27th March 2000*Yn dod i rym* 1 Ebrill 2000*Coming into force* 1st April 2000

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") wedi cael cynnig gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, wedi'i wneud yn unol ag adran 51 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(a) ("y Ddeddf"), i ddiddymu'r gorfforaeth addysg bellach a adwaenir fel Coleg Pencoed(b) ("y Trosglwyddwr") o dan adran 27 o'r Ddeddf;

The National Assembly for Wales ("the National Assembly") has received a proposal from the Further Education Funding Council for Wales, made in accordance with section 51 of the Further and Higher Education Act 1992(a) ("the Act"), for the dissolution under section 27 of the Act of the further education corporation known as Pencoed College(b) ("the Transferor");

Drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifenydd Gwladol gan adran 27 o'r Ddeddf ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(c), mae'r Cynulliad Cenedlaethol, wedi ymgynghori â'r Trosglwyddwr, a chyda chydysyniad y gorfforaeth addysg bellach a adwaenir fel Coleg Technoleg Pen-y-bont ar Ogwr(ch) ("y Trosglwyddai") yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

In exercise of the power conferred on the Secretary of State by section 27 of the Act and now vested in the National Assembly(c), the National Assembly after consulting the Transferor and with the consent of the further education corporation known as Bridgend College of Technology(d) ("the Transferee") makes the following Order:

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg Pencoed (Diddymu) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000.

1. This Order may be cited as The Pencoed College (Dissolution) Order 2000 and shall come into force on 1st April 2000.

2. Ar 1 Ebrill 2000 diddymir y Trosglwyddwr a throsglwyddir ei holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau i'r Trosglwyddai, sydd yn gorfforaeth gorfforedig a sefydlwyd at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysg.

2. On 1st April 2000 the Transferor shall be dissolved and all of its property, rights and liabilities shall be transferred to the Transferee, being a body corporate established for purposes which include the provision of educational facilities or services.

3. Bydd adran 26(2), (3) a (4) o'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw berson a gyflogid gan y Trosglwyddwr yn union cyn 1 Ebrill 2000 fel petai'r cyfeiriadau yn yr adran honno -

3. Section 26(2), (3) and (4) of the Act shall apply to any person employed by the Transferor immediately before 1st April 2000 as if the references in that section -

(a) at berson y mae'r adran honno'n gymwys iddo yn gyfeiriad at berson a gyflogid felly;

(a) to a person to whom that section applies were to a person so employed;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriad at 1 Ebrill 2000;

(b) to the operative date were to 1st April 2000;

(a) 1992 p.13. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifenydd Gwladol o dan adran 51 i'r Cynulliad Cenedlaethol gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(a) 1992 c.13. The functions of the Secretary of State under section 51 were transferred to the National Assembly by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(b) Sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S.1992/2097).

(b) Established by the Education (Further Education Corporations) Order 1992 (S.I. 1992/2097).

(c) Gweler O.S 1999/672.

(c) See S.I 1999/672.

(ch) Sefydlwyd gan O.S. 1992/2097 hefyd.

(d) Also established by S.I. 1992/2097.

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriad at y Trosglwyddwr; ac

(ch) at y gorfforaeth yn gyfeiriad at y Trosglwyddai.

(c) to the transferor were to the Transferor; and

(d) to the corporation were to the Transferee.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

27 Mawrth 2000

27th March 2000

T Middlehurst

Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16
y Cynulliad

Assembly Secretary for Post 16
Education and Training

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 974 (Cy. 44)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Coleg Pencoed
(Diddymu) 2000

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 974 (W. 44)

EDUCATION, WALES

The Pencoed College (Dissolution)
Order 2000

©[®] Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£1.50

WO6070 05/00 ON

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090039-1



9 780110 900391